- nad yw manylion adnabod neu gyrchfan y cynnyrch a ddychwelwyd yn cyfateb i'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar unrhyw ddogfen berthnasol

y mae angen i unrhyw berson y mae'n ofynnol o dan reoliad 19 iddo roi cynnyrch a ddychwelwyd, neu sicrhau ei fod yn cael ei roi, i'r milfeddyg swyddogol wrth fan archwilio ar y ffin ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol, neu gynorthwy-ydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c), i gyflawni gwiriad ffisegol ar y cynnyrch a ddychwelwyd.

Gwybodaeth Cychwyn

I50 Rhl. 50 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Symud cynhyrchion a ddychwelwyd

51.—(1) Ni chaiff neb symud cynnyrch a ddychwelwyd o fan archwilio ar y ffin, na pheri iddo gael ei symud, heb awdurdodiad ysgrifenedig y milfeddyg swyddogol yno.

(2) Ni chaiff neb symud cynnyrch a ddychwelwyd o fan archwilio ar y ffin oni bai ei fod wedi'i gynnwys mewn cynhwysydd sy'n rhydd rhag gollyngiadau neu gyfrwng cludo sydd wedi'i selio gan swyddog i'r Comisiynwyr neu gan y milfeddyg swyddogol wrth y man archwilio hwnnw ar y ffin.

(3) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnyrch a ddychwelwyd ac a symudwyd yn unol â pharagraffau (1) a (2), ac unrhyw gludydd sydd â gofal drosto am y tro sicrhau —

- ei fod yn cael ei gludo'n uniongyrchol i'w sefydliad tarddiad Cymunedol yn y cynhwysydd seliedig sy'n rhydd rhag gollyngiadau neu'r cyfrwng cludo y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (2); a
- bod y dystysgrif cliriad milfeddygol a ddyroddwyd mewn perthynas â'r cynnyrch a ddychwelwyd yn mynd gydag ef nes i'r cynnyrch a ddychwelwyd gyrraedd ei sefydliad tarddiad Cymunedol.

(4) Ni chaiff neb dorri'r seliau ar y cynhwysydd na'r cyfrwng cludo y mae'r cynnyrch a ddychwelwyd yn cael ei gludo ynddo, na dadlwytho'r cynnyrch a ddychwelwyd, na holli'r llwyth na'r rhan o'r llwyth sy'n cynnwys y cynnyrch a ddychwelwyd, na pheri i'r cynnyrch a ddychwelwyd gael ei drafod mewn unrhyw ffordd, nes iddo gyrraedd ei sefydliad tarddiad Cymunedol.

(5) Rhaid i weithredydd y sefydliad tarddiad Cymunedol roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith fod y cynnyrch a ddychwelwyd wedi cyrraedd yno i'r milfeddyg sy'n gyfrifol ar ran y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth ar gyfer y sefydliad hwnnw.

Gwybodaeth Cychwyn

I51 Rhl. 51 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

RHAN 10

Ffioedd am Wiriadau Milfeddygol

Talu ffioedd

52.—(1) Codir ffi resymol a gaiff ei gyfrifo yn unol â rheoliadau 53 a 54 ac Atodlen 4 am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar lwyth wrth fan archwilio ar y ffin.

(2) Bydd y ffi yn daladwy i'r Cynulliad Cenedlaethol, awdurdod lleol neu'r Asiantaeth, p'un bynnag sy'n gyfrifol, yn unol â rheoliadau 4 a 5, am weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn wrth y man archwilio ar y ffin lle cyflawnwyd y gwiriadau milfeddygol.

Gwybodaeth Cychwyn

I52 Rhl. 52 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Cyfrifo ffioedd

53. Rhaid i'r ffi am wiriadau milfeddygol gwmpasu'r costau a restrir yn Rhan I o Atodlen 4 a rhaid ei chyfrifo yn unol â Rhan II, III, IV neu V o Atodlen 4.

Gwybodaeth Cychwyn

I53 Rhl. 53 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Trosi'r ffioedd i sterling

54. Caiff ffioedd a fynegir mewn ewros yn Atodlen 4 eu trosi i bunnoedd sterling yn ôl y gyfradd drosi sy'n cael chyhoeddi yng nghyfres "C" o Gylchgrawn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd ym Medi'r flwyddyn galendr cyn y flwyddyn y cyflawnwyd y gwiriad milfeddygol perthnasol ynddi.

Gwybodaeth Cychwyn

I54 Rhl. 54 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Atebolrwydd am dalu ffioedd

55. Pan ofynnir iddo wneud hynny, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am lwyth dalu'r ffi a godwyd am y gwiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar y llwyth.

Gwybodaeth Cychwyn

I55 Rhl. 55 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth am ffioedd

56.—(1) Os gofynnir mewn ysgrifen iddynt wneud hynny, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, awdurdod lleol neu'r Asiantaeth ddarparu i unrhyw berson sy'n rhoi cynhyrchion yn unol â rheoliad 18, neu i unrhyw gorff sy'n cynrychioli personau o'r fath, fanylion y cyfrifiadau y mae'n eu defnyddio i benderfynu ffioedd am wiriadau milfeddygol a rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau y gyflwynwyd gan berson neu gorff o'r fath wrth benderfynu ffioedd o'r fath.

(2) Os gofynnir mewn ysgrifen iddo wneud hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth, rhaid i awdurdod lleol ddarparu i'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth unrhyw wybodaeth y mae arno neu arni ei hangen ynglŷn â chyfrifo ffioedd am wiriadau milfeddygol, a chopïau o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan bersonau neu gyrff y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1).

Gwybodaeth Cychwyn

I56 Rhl. 56 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Apelau yn erbyn ffioedd a dalwyd i awdurdodau lleol

57.—(1) Caiff unrhyw berson sydd wedi talu ffi am wiriadau milfeddygol i awdurdod lleol ac unrhyw gorff sy'n cynrychioli personau o'r fath, o fewn un niwrnod ar hugain o godi'r ffi, apelio mewn ysgrifen ar y sail bod swm y ffi yn afresymol —

- i'r Cynulliad Cenedlaethol, os yw'r ffi yn un am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd heblaw mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogaethau'r Asiantaeth; a
- i'r Asiantaeth, os yw'r ffi yn un am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd mewn perthynas ag unrhyw un o swyddogaethau'r Asiantaeth.

(2) Pan fo apêl o dan baragraff (1), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth ymgynghori â'r awdurdod lleol ac, os caiff ei fodloni neu ei bodloni bod swm y ffi yn afresymol, rhaid iddo neu iddi hysbysu'r awdurdod lleol, a rhaid i'r awdurdod lleol ailgyfrifo swm y ffi yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth ac ad-dalu i'r person a dalodd y ffi y gwahaniaeth rhwng y ffi wreiddiol a'r ffi a ailgyfrifwyd.

Gwybodaeth Cychwyn

I57 Rhl. 57 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Apelau yn erbyn ffioedd a dalwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth

58.—(1) Caiff unrhyw berson sydd wedi talu ffi am wiriadau milfeddygol i'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth, ac unrhyw gorff sy'n cynrychioli personau o'r fath, cyn pen un niwrnod ar hugain ar ôl i'r ffi gael ei chodi, roi hysbysiad ysgrifenedig o'i ddymuniad i apelio i berson annibynnol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu pan fo'r ffi wedi'i thalu i'r Asiantaeth, i berson annibynnol a benodwyd gan yr Asiantaeth ar y sail bod swm y ffi yn afresymol.

(2) Os cafodd y ffi ei thalu i'r Asiantaeth, cyflawnir swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mharagraffau (3) i (4) gan yr Asiantaeth.

(3) Pan fydd apelydd yn rhoi hysbysiad o'i ddymuniad i ymddangos gerbron person annibynnol a benodwyd i'r perwyl a chael gwrandawriad ganddo—

- rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi person annibynnol i wrando sylwadau a phennu terfyn amser erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno sylwadau i'r person annibynnol hwnnw;

- (b) rhaid i'r person a benodir felly beidio â bod yn swyddog nac yn was i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac eithrio gyda chydysyniad yr apelydd;
- (c) os bydd yr apelydd yn gofyn am hynny, rhaid i'r gwrandawriad fod yn gyhoeddus;
- (ch) rhaid i'r person annibynnol gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol; a
- (d) os bydd yr apelydd yn gofyn am hynny, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi copi i'r apelydd o adroddiad y person annibynnol.

(4) Os caiff y person annibynnol ei fodloni bod swm y ffi yn afresymol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ailgyfrifo'r ffi yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan y person annibynnol ac ad-dalu i'r person a dalodd y ffi y gwahaniaeth rhwng y ffi wreiddiol a'r ffi ailgyfrifwyd.

Gwybodaeth Cychwyn

158 Rhl. 58 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

RHAN 11

Datganiadau Brys

Brigiadau clefyd mewn trydydd gwledydd

59.—(1) Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth yn cael ar ddeall fod clefyd y cyfeirir ato yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 82/894/EEC ar hysbysu o glefydau anifeiliaid o fewn y Gymuned(**28**), milhaint neu glefyd arall neu ffenomen neu amgylchiad sy'n debyg o fod yn fygythiad difrifol i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd yn bresennol mewn unrhyw drydedd wlad, neu pan fydd ganddo neu ganddi seiliau rhesymol dros amau ei fod yn bresennol, caiff atal unrhyw gynnyrch o'r cyfan neu o unrhyw ran o'r drydedd wlad honno rhag cael ei gyflwyno i Gymru, neu caiff osod amodau ar ei gyflwyno, drwy ddatganiad ysgrifenedig.

(2) Rhaid i ddatganiad o'r fath fod mewn ysgrifen a rhaid iddo gael ei gyhoeddi yn y modd y gwêl y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Asiantaeth yn dda a rhaid iddo bennu'r cynhyrchion a'r drydedd wlad neu'r rhan ohoni sydd o dan sylw.

(3) Rhaid i ddatganiad sy'n gosod amodau ar gyflwyno unrhyw gynnyrch o drydedd wlad neu ran ohoni bennu'r amodau hynny.

(4) Pan fo datganiad mewn grym sy'n atal unrhyw gynnyrch rhag cael ei gyflwyno, ni chaiff neb gyflwyno'r cynnyrch hwnnw i Gymru os yw'n tarddu o'r drydedd wlad neu o'r rhan ohoni a bennir yn y datganiad.

(5) Pan fo datganiad mewn grym sy'n gosod amodau ar gyflwyno unrhyw gynnyrch, ni chaiff neb gyflwyno'r cynnyrch hwnnw i Gymru os yw'n tarddu o'r drydedd wlad neu o'r rhan ohoni sydd wedi'i phennu yn y datganiad oni bai bod y cynnyrch yn cydymffurfio â'r amodau a bennir yn y datganiad.

(6) Caniateir i ddatganiad gael ei addasu, ei atal neu ei ddirymu drwy ddatganiad ysgrifenedig pellach a gyhoeddir, i'r graddau y mae'n ymarferol, yn yr un modd ac i'r un graddau â'r datganiad gwreiddiol.

(28) OJ Rhif L378, 31.12.82, t.58, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor ([EC](#)) Rhif 807/2003 (OJ Rhif L122, 16.5.2003, t.36).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I59 Rhl. 59 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

RHAN 12

Tramgwyddau a Chostau

Rhwystro

60.—(1) Ni chaiff neb—

- rhwystro unrhyw berson yn fwriadol wrth iddo arfer pŵ er a roddwyd gan reoliad 9 neu 10 neu wrth iddo gyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall;
- methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd arno yn unol â rheoliad 8 neu 9, neu fethu â rhoi i unrhyw berson, sy'n arfer pŵ er a roddwyd gan y rheoliadau hynny neu sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall, unrhyw gymorth neu wybodaeth y gall fod arno angen rhesymol amdano er mwyn arfer y pŵ er neu gyflawni'r swyddogaeth; neu
- rhoi i unrhyw berson sy'n arfer pŵ er a roddwyd gan reoliad 8 neu 9 neu sy'n cyflawni unrhyw swyddogaeth reoliadol arall unrhyw wybodaeth y mae'n gwybod ei fod yn ffug neu'n gamarweiniol.

(2) Ni fydd paragraff (1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i berson ateb unrhyw gwestiwn na rhoi unrhyw wybodaeth os byddai gwneud hynny yn gallu taflu bai ar y person hwnnw.

Gwybodaeth Cychwyn

I60 Rhl. 60 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Amddiffyniad diwydrwydd dyladwy

61.—(1) Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dorri un o ddarpariaethau'r rheoliadau a restrir yn Atodlen 5, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd ei hun neu osgoi iddo gael ei gyflawni gan berson o dan ei reolaeth.

(2) Os yw'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu gan baragraff (1) mewn unrhyw achos yn cynnwys honni bod y tramgwydd wedi'i gyflawni oherwydd gweithred neu fethiant person arall, neu ddibyniad ar wybodaeth a ddarparwyd gan berson arall, ni chaiff y person a gyhuddir, heb ganiatâd y Llys, hawl i ddibynnu ar yr amddiffyniad hwnnw, oni bai bod y person a gyhuddir—

- o leiaf saith niwrnod clir cyn y gwrandawriad; a
- os yw'r person a gyhuddir wedi ymddangos, neu wedi'i ddwyn, o'r blaen gerbron llys mewn cysylltiad â'r tramgwydd honedig, o fewn un mis ar ôl iddo ymddangos felly am y tro cyntaf,

wedi cyflwyno i'r erlynydd hysbysiad ysgrifenedig yn rhoi unrhyw wybodaeth sy'n dangos, neu sy'n helpu i ddangos, pwy yw'r person arall hwnnw, a honno'n wybodaeth a oedd yn ei feddiant ar y pryd.

Gwybodaeth Cychwyn

I61 Rhl. 61 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Toriadau

62. Bydd unrhyw berson—

- (a) sy'n torri un o ddarpariaethau'r Rholiadau hyn, ac eithrio —
 - (i) y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn rheoliadau 8(2) a 19(3) ac sy'n cyfeirio at dalu costau; a
 - (ii) y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn rheoliadau 23(7), 28, 43(5), 45(2) a 55; neu
- (b) sy'n methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynwyd iddo o dan y Rheoliadau hyn, yn euog o dramgwydd.

Gwybodaeth Cychwyn

I62 Rhl. 62 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Cosbau

63.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n euog o'r tramgwydd o dorri rheoliad 60(1)(a) neu (b) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu gyfnod yn y carchar heb fod yn fwy na thri mis, neu'r ddau.

- (2) Bydd person sy'n euog o unrhyw dramgwydd arall o dan y Rheoliadau hyn yn agored—
 - (a) o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol neu garchariad am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis neu'r ddau;
 - (b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy neu garchariad am gyfnod heb fod yn fwy na dwy flynedd neu'r ddau.

Gwybodaeth Cychwyn

I63 Rhl. 63 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

64.—(1) Pan fydd corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, a'i bod wedi'i phrofi bod y tramgwydd hwnnw wedi'i gyflawni gyda chydysyniad neu oddefiad swyddog corfforaethol i'r corff corfforaethol, neu fod y tramgwydd hwnnw yn dramgwydd y gellid ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran un o swyddogion corfforaethol y corff corfforaethol, bydd y swyddog corfforaethol yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i achos yn ei erbyn ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr “swyddog corfforaethol” mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei fusnes yn cael ei reoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

Gwybodaeth Cychwyn

I64 Rhl. 64 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

RHAN 13

Hysbysiadau a Phenderfyniadau

Cyflwyno hysbysiadau

65.—(1) Caniateir i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Rheoliadau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, yr Asiantaeth neu swyddog gorfodi gael ei gyflwyno i berson drwy—

- (a) ei ddanfôn i'r person hwnnw;
- (b) ei adael ym mhriod gyfeiriad y person hwnnw; neu
- (c) ei bostio i briod gyfeiriad y person hwnnw.

(2) Rhaid i unrhyw hysbysiad o'r fath sydd i'w gyflwyno i gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforaethol ac eithrio partneriaeth gael ei gyflwyno'n briodol i ysgrifennydd neu glerc y corff hwnnw neu i swyddog tebyg arall.

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad o'r fath sydd i'w gyflwyno i bartneriaeth (gan gynnwys partneriaeth Albanaidd) gael ei gyflwyno'n briodol i bartner neu berson a chanddo rheolaeth ar y busnes partneriaeth.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), at ddibenion y rheoliad hwn, cyfeiriad hysbys diwethaf y person fydd priod gyfeiriad unrhyw berson y mae hysbysiad i'w gyflwyno iddo, ac eithrio'r ffaith mai'r canlynol fydd y priod gyfeiriad—

- (a) yn achos corff corfforaethol neu ei ysgrifennydd neu ei glerc, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa y corff corfforaethol;
- (b) yn achos cymdeithas anghorfforaethol (ac eithrio partneriaeth) neu ei hysgrifennydd neu ei chlerc, cyfeiriad prif swyddfa'r gymdeithas; ac
- (c) yn achos partneriaeth (gan gynnwys partneriaeth Albanaidd) neu berson a chanddo reolaeth ar y busnes partneriaeth, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth.

(5) Pan fo'r person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo yn gwmni sydd wedi'i gofrestru, neu'n bartneriaeth sy'n cynnal busnes, y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a bod gan y cwmni neu'r bartneriaeth swyddfa o fewn y Deyrnas Unedig, prif swyddfa'r cwmni hwnnw neu'r bartneriaeth honno at ddibenion paragraff 4 fydd ei brif swyddfa o fewn y Deyrnas Unedig.

(6) Os yw'r person y mae unrhyw hysbysiad o'r fath i'w gyflwyno iddo wedi rhoi i'r person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno drwyddo gyfeiriad yn unol ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, ymdrinnir â'r cyfeiriad hwnnw fel priod gyfeiriad y person y mae'r hysbysiad i'w gyflwyno iddo at ddibenion y rheoliad hwn.

(7) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr “postio” hysbysiad yw ei anfon drwy ddull rhagdaledig drwy wasanaeth post sy'n ceisio danfon dogfennau drwy'r post o fewn y Deyrnas Unedig heb fod yn ddiweddarach na'r diwrnod gwaith nesaf ym mhob achos neu ran amlaf, a danfon dogfennau drwy'r post y tu allan i'r Deyrnas Unedig o fewn y cyfnod sy'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.

Gwybodaeth Cychwyn

I65 Rhl. 65 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Hysbysu o benderfyniadau

66. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud, o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas â chynnyrch neu lwyth, rhaid i'r person sy'n gwneud y penderfyniad, os gofynnir iddo wneud hynny, hysbysu'r person sy'n gyfrifol am y cynnyrch neu'r llwyth mewn ysgrifen o'r

penderfyniad a'r rhesymau drosto, ynghyd â manylion ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad gan gynnwys y weithdrefn a'r terfynau amser sy'n gymwys.

Gwybodaeth Cychwyn

I66 Rhl. 66 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

RHAN 14

Datgymhwyso a Dirymu

Datgymhwyso'r darpariaethau sy'n bodoli eisoes

67.—(1) Ni fydd Gorchymyn Mewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid a Chynhyrchion Dofednod 1980(29) yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, ac eithrio'r cynhyrchion y cyfeiriwyd atynt yn Rheoliad 4(3).

(2) Ni fydd y canlynol yn gymwys i gynhyrchion y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt—

- (a) Rheoliadau Bwyd a Fewnforir 1984(30); a
- (b) rheoliadau 2, 3 i 8, 28 i 39 a 40(1) o Reoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(31) ac Atodlen 4 a Rhan I o Atodlen 5 i'r Rheoliadau hynny.

Gwybodaeth Cychwyn

I67 Rhl. 67 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Dirymu

68. Dirymir y Rheoliadau a bennir yn Atodlen 6, i'r graddau y maent yn gymwys yng Nghymru, yn y modd y nodir yn yr Atodlen honno.

Gwybodaeth Cychwyn

I68 Rhl. 68 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(32).

25 Mai 2004

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(29) O.S. 1980/14, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1982/948, 1990/2371, 1994/2920 a 1994/3142, ac o'i ddarllen ynghyd ag O.S. 1997/322.

(30) O.S. 1984/1918, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1990/2371, 1997/2537 a 2000/656.

(31) O.S. 1996/3124. O.S. 1997/3023 a 2000/656 yw'r diwygiadau perthnasol.

(32) 1998 p.38.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

ATODLEN 1

Rheoliadau 2(1) a 17(3)

Hysbysiad Cyflwyno neu Roi a Thystysgrif Cliriad Milfeddygol

Gwybodaeth Cychwyn
I69 Atod. 1 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

DALEN IHYSBYSIAD CYFLWYNO NEU ROI

Mae unrhyw newid neu ddilead ar y ddogfen hon gan berson anawdurdodedig yn ei gwneud yn amillys.

TYSTYSGRIF AR GYFER GWIRIADAU MILFEDDYGOL AR GYNIYRCHION SYDD WEDU CYFLWYNO I'R GYMUNED EWROPEAIDD O WLEDYDD NAD YDYNT YN AELODAU OHONI

1. Manylion y llwyth a gyflwynwyd⁽¹⁾

Yr man archwilio ar y ffin sy'n cyflawni'r gwiriadau milfeddygol:

Y wlad y mae'r llwyth yn deillio ohoni:

Y wlad lle traddodwyd y llwyth:

Y traddodydd:

Y mewforiwr:

Y gyrchwlad yn y Gymuned Ewropeaidd:

(Gwlad, sefydliad, cyfeiriad)

Y gyrchfan ddiellau:

Cyfrang chudo

Awyr: Rhif yr Lheddiad:

Tir: Rhif y Cerbyd:

Môr: Llaw y Llong a Rhif y cynhwysydd:

Rhif y Sêl:

(1) Ilyt ffe lensi gan y masnachwyr neu ei gerrysbwylic.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Cod CN	Natur y nwyddau	Math o gadwraeth	Nifer y pceynnau	Pwysau gros	Pwysau net
Cylansyrniau					

Y dyddiad y bydd yn debyg o gymaedd	Tystysgrif(au) Iechyd Anifeiliaid a/neu Iechyd y Cyhoedd Rhit(au): Dyddiad ei/eu dyroddi: Man ei/eu dyroddi: Yr awdurdod sy'n ei/eu dyroddi:	Manylion cyflawn ar gyfer adnabod y datganydd: Llofnod:	Dyddiad:

DALEN 2 TYSTYSGRIF CLIRIAD MILFEDDYGOL

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

2. Y penderfyniad ar y llwyth⁽¹⁾

Cyfeirnod:

.....

<p>Rhyddhau'r llwyth i'w ddefnyddio'n ddirwystr yn y Gymuned Ewropeaidd:</p> <p><input type="checkbox"/> yn ffit i bobl ei fwyta</p> <p><input type="checkbox"/> wedi'i arfaethu i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid yn: (Gwlad a sefydliad)</p> <p><input type="checkbox"/> wedi'i arfaethu at ddefnydd fferyllol yn: (Gwlad a sefydliad)</p> <p><input type="checkbox"/> yn anffit i bobl ei fwyta neu i'w ddefnyddio ar gyfer bwyd anifeiliaid</p> <p><input type="checkbox"/> wedi'i arfaethu i gael triniaeth dechnegol arall (nodwch ba un):</p> <p><input type="checkbox"/> defnyddiau eraill (nodwch ba rai):</p>	<p>Mynediad i'r Gymuned Ewropeaidd o dan wyladwriaeth y dolfia:</p> <p><input type="checkbox"/> wedi'i draddodi i drydedd wlad arall heb ei dladlwytho (enw'r drydedd wlad):</p> <p><input type="checkbox"/> wedi'i storio mewn parth rhydd neu warw rydd Enw a chyfeiriad:</p> <p><input type="checkbox"/> wedi'i storio mewn un o wariysau'r dolfia Enw a chyfeiriad:</p> <p><input type="checkbox"/> wedi'i draddodi i Aelod-wladwriaeth gyda gofynion penodol: (Gwlad a sefydliad):</p> <p>ac mae'n cydymffurfio â'r Penderfyniad canlynol:</p>
<p><i>Mewnforio wedi'i wrthod:</i></p> <p>Y rheswm:</p>	
<p>Canau: i'w ddechwyn cyn: i'w ddimistrio cyn: i'w brosesu yn unol ag Erthygl 4 o Benderfyniad 93/13/EEC.</p> <p>Enw a chyfeiriad y sefydliad prosesu:</p>	

Manylion adnabod llawn y man archwilio ar y ffin a'r sêl swyddogol

Dyddiad:

Milfeddyg Swyddogol
(Llofnod)
Enw mewn priflythrennau ⁽²⁾

(1) Dylai i'w lewng drosglwyddu ei enw sy'n gynnwys a chofrestru lleoli.

(2) Dylai i'w lewng gan y milfeddyg swyddogol sy'n gyfeirid am y man a chofrestru ar y ffin.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Sylwadau:					
Y gwiriadau a gyflawnwyd	Y ddogfen	<input type="checkbox"/>	Y manylion adnabod	<input type="checkbox"/>	Gwiriad Ffisegol <input type="checkbox"/>
Y profion labordy a gyflawnwyd:					Y canlyniadau:
Y profion labordy ar y gweill:					

Rhif sêl y gwasanaeth swyddogol:

Yr awdurdod cymwys yn y gychfan:

ATODLEN 2

Rheoliadau 2(1), 3(4), 21(5), 36 a 37(1) a (6)

Yr Amodau Mewnforio

RHAN I

DARPARIAETHAU SY'N GYFFREDIN I NIFER O CATEGORïAU O GYNNYRCH

Terfynau gweddillion uchaf a halogion

1. Rheoliad y Cyngor ([EEC Rhif 2377/90](#)) sy'n gosod gweithdrefn Gymunedol ar gyfer sefydlu terfynau gweddillion uchaf cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol mewn bwydydd sy'n tarddu o anifeiliaid (OJ Rhif L224, 18.8.90, t.1), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn ([EC Rhif 77/2002](#) (OJ Rhif L16, 18.1.2002, t.9)).

Gwybodaeth Cychwyn

I70 Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

2. Cyfarwyddeb y Cyngor [96/23/EC](#) ar fesurau i fonitro sylweddau penodol a'u gweddillion mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid a'r Cyfarwyddebau sy'n ei dirymu, sef Cyfarwyddebau [1985/358/EEC](#) a [1986/469/EEC](#) a Phenderfyniadau [1989/187/EEC](#) a [1991/664/EEC](#) (OJ Rhif L125, 23.5.96, t.10).

Gwybodaeth Cychwyn

I71 Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

3. Penderfyniad y Comisiwn [2000/159/EC](#) ar gymeradwyo dros dro gynlluniau trydydd gwledydd ynghylch gweddillion yn ôl Cyfarwyddeb y Cyngor [96/23/EC](#) (OJ Rhif L51, 24.2.2000, t.30) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2003/702/EC](#) (OJ Rhif L254, 8.10.2003, t.29).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I72 Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

4. Rheoliad y Comisiwn ([EC](#)) [Rhif 466/2001](#) yn gosod y lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn bwydydd (OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn ([EC](#)) [Rhif 563/2002](#) (OJ Rhif L86, 3.4.2002, t.5).

Gwybodaeth Cychwyn

I73 Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Gwybodaeth Cychwyn

I70 Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

I71 Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

I72 Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

I73 Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Enseffalopathïau spynffurf trosglwyddadwy

5. Rheoliad ([EC](#)) [Rhif 999/2001](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli, a difa enseffalopathïau spynffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L147, 31.5.2001, t.1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn ([EC](#)) [Rhif 1915/2003](#) (OJ Rhif L283, 31.10.2003, t.29).

Gwybodaeth Cychwyn

I74 Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Ardystiadau iechyd ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd

6. Penderfyniad y Comisiwn [2003/56/EC](#) ar dystysgrifau iechyd ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd (OJ Rhif L22, 25.1.2003, t.38) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2003/669/EC](#) (OJ Rhif L237, 24.9.2003, t.7).

Gwybodaeth Cychwyn

I75 Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

RHAN II

CIG FFRES O ANIFEILIAID O DEULU'R FUWCH, TEULU'R DAFAD, TEULU'R AFR A THEULU'R MOCHYN

Darpariaethau cyffredinol

1. Cyfarwyddeb y Cyngor [64/433/EEC](#) ar broblemau iechyd sy'n effeithio ar fasnach o fewn y Gymuned mewn cig ffres (OJ Rhif L121, 29.7.64, t.2012), fel y'i diwygiwyd a'i diweddarwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor [91/497/EC](#) (OJ Rhif L268, 24.9.91, t.69) ac fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor [95/23/EC](#) (OJ Rhif L243, 11.10.95, t.7).

Gwybodaeth Cychwyn

I70 Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

2. Cyfarwyddeb y Cyngor [72/462/EEC](#) ar broblemau iechyd a phroblemau archwiliadau milfeddygol wrth fewnforio cynhyrchion anifeiliaid o deulu'r fuwch, teulu'r ddafad, teulu'r afr a theulu'r mochyn, cig ffres a chynhyrchion cig o drydydd gwledydd (OJ Rhif L302, 31.12.72, t.28), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor ([EC](#)) [1452/2001](#) (OJ Rhif L198, 21.7.2001, t.11).

Gwybodaeth Cychwyn

I71 Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

3. Cyfarwyddeb y Cyngor [77/96/EEC](#) ar gyfer archwilio am trichinae (*trichinella spiralis*) wrth fewnforio o drydydd gwledydd gig ffres o foch domestig (OJ Rhif L26, 31.1.77, t.67), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor [94/59/EC](#) (OJ Rhif L315, 8.12.94, t.18).

Gwybodaeth Cychwyn

I72 Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Gwybodaeth Cychwyn

I70 Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

I71 Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

I72 Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Trydydd gwledydd y caniateir mewnforio cig ffres ohonynt

4. Penderfyniad y Cyngor [79/542/EEC](#) yn llunio rhestr o drydydd gwledydd y mae'r Aelod-wladwriaethau yn awdurdodi mewnforio ohonynt anifeiliaid o deulu'r fuwch, anifeiliaid o deulu'r mochyn, equidae, defaid a geifr, cig ffres a chynhyrchion cig (OJ Rhif L146, 14.6.79, t.15) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2001/731/EC](#) (OJ Rhif L274, 17.10.2001, t.22).

Gwybodaeth Cychwyn

I73 Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Sefydliadau trydedd wlad y caniateir mewnforio cig ffres ohonynt

5. Penderfyniad y Comisiwn [95/408/EC](#) ar amodau ar gyfer llunio, am gyfnod interim, restrï dros dro o sefydliadau trydedd wlad yr awdurdodir Aelod-wladwriaethau i fewnforio ohonynt gynhyrchion penodol sy'n tarddu o anifeiliaid, cynhyrchion pysgodfeydd neu folysgiaid deufalf byw (OJ Rhif L243, 11.10.95, t.17), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2001/4/EC](#) (OJ Rhif L2, 5.1.2001, t.21).

Gwybodaeth Cychwyn

I74 Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

6. **Yr Ariannin**— Penderfyniad y Comisiwn [81/91/EEC](#) (OJ Rhif L58, 5.3.81, t.39) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [86/392/EEC](#) (OJ Rhif L228, 14.8.86, t.44).

Gwybodaeth Cychwyn

I75 Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

7. **Awstralia**— Penderfyniad y Comisiwn [83/384/EEC](#) (OJ Rhif L222, 13.01.83, t.36) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [86/389/EEC](#) (OJ Rhif L228, 14.8.86, t.34).

Gwybodaeth Cychwyn

I76 Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

8. **Botswana**— Penderfyniad y Comisiwn [83/243/EEC](#) (OJ Rhif L129, 19.5.83, t.70).

Gwybodaeth Cychwyn

I77 Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

9. **Brasil**— Penderfyniad y Comisiwn [81/713/EEC](#) (OJ Rhif L257, 10.9.81, t.28) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [89/282/EEC](#) (OJ Rhif L110, 21.4.89, t.54).

Gwybodaeth Cychwyn

I78 Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

10. **Bwlgaria**— Penderfyniad y Comisiwn [87/735/EEC](#) (OJ Rhif L311, 8.11.82, t.16).

Gwybodaeth Cychwyn

I79 Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

11. **Canada**— Penderfyniad y Comisiwn [87/258/EEC](#) (OJ Rhif L121, 9.5.87, t.50).

Gwybodaeth Cychwyn

I80 Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

12. Chile— Penderfyniad y Comisiwn [87/124/EEC](#) (OJ Rhif L51, 20.2.87, t.41).

Gwybodaeth Cychwyn

I81 Atod. 2 para. 12 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

13. Croatia— Penderfyniad y Comisiwn [93/26/EEC](#) (OJ Rhif L16, 25.1.93, t.24).

Gwybodaeth Cychwyn

I82 Atod. 2 para. 13 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

14. Y Weriniaeth Tsiec— Penderfyniad y Comisiwn [93/546/EEC](#) (OJ Rhif L266, 27.10.93, t.31).

Gwybodaeth Cychwyn

I83 Atod. 2 para. 14 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

15. Estonia— Penderfyniad y Comisiwn [2003/689/EC](#) (OJ Rhif L251, 3.10.2003, t. 21).

Gwybodaeth Cychwyn

I84 Atod. 2 para. 15 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

16. Ynysoedd Falkland— Penderfyniad y Comisiwn [2002/987/EC](#) (OJ Rhif L344, 19.12.2002, t.39).

Gwybodaeth Cychwyn

I85 Atod. 2 para. 16 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

17. Kalaallit Nunaat (Greenland)— Penderfyniad y Comisiwn [85/539/EEC](#) (OJ Rhif L334, 12.12.85, t.25).

Gwybodaeth Cychwyn

I86 Atod. 2 para. 17 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

18. Hwngari— Penderfyniad y Comisiwn [82/733/EEC](#) (OJ Rhif L311, 8.11.82, t.10) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [86/245/EEC](#) (OJ Rhif L163, 19.6.86, t.49).

Gwybodaeth Cychwyn

I87 Atod. 2 para. 18 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

19. Gwlad yr Iâ— Penderfyniad y Comisiwn [84/24/EEC](#) (OJ Rhif L20, 25.1.84, t.21).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I88 Atod. 2 para. 19 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

20. Cyn Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia— Penderfyniad y Comisiwn [95/45/EC](#) (OJ Rhif L51, 8.3.95, t.13).

Gwybodaeth Cychwyn

I89 Atod. 2 para. 20 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

21. Lithwania— Penderfyniad y Comisiwn [2001/827/EC](#) (OJ Rhif L308, 27.11.2001, t.39).

Gwybodaeth Cychwyn

I90 Atod. 2 para. 21 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

22. Madagascar— Penderfyniad y Comisiwn [90/165/EEC](#) (OJ Rhif L91, 6.4.90, t.34).

Gwybodaeth Cychwyn

I91 Atod. 2 para. 22 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

23. Malta— Penderfyniad y Comisiwn [87/548/EEC](#) (OJ Rhif L327, 18.11.87, t.28).

Gwybodaeth Cychwyn

I92 Atod. 2 para. 23 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

24. Mecsico— Penderfyniad y Comisiwn [87/424/EEC](#) (OJ Rhif L228, 15.8.87, t.43).

Gwybodaeth Cychwyn

I93 Atod. 2 para. 24 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

25. Morocco— Penderfyniad y Comisiwn [86/65/EEC](#) (OJ Rhif L72, 15.3.86, t.40).

Gwybodaeth Cychwyn

I94 Atod. 2 para. 25 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

26. Namibia— Penderfyniad y Comisiwn [90/432/EEC](#) (OJ Rhif L223, 18.8.90, t.19).

Gwybodaeth Cychwyn

I95 Atod. 2 para. 26 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

27. Seland Newydd— Penderfyniad y Comisiwn [83/402/EEC](#) (OJ Rhif L223, 24.8.83, t.24) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [86/432/EEC](#) (OJ Rhif L253, 5.9.86, t.28).

Gwybodaeth Cychwyn

I96 Atod. 2 para. 27 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

28. Paraguay— Penderfyniad y Comisiwn [83/423/EEC](#) (OJ Rhif L238, 27.8.83, t.39).

Gwybodaeth Cychwyn

I97 Atod. 2 para. 28 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

29. Gwlad Pwyl— Penderfyniad y Comisiwn [84/28/EEC](#) (OJ Rhif L21, 26.1.84, t.42) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [86/252/EEC](#) (OJ Rhif L165, 21.6.86, t.43).

Gwybodaeth Cychwyn

I98 Atod. 2 para. 29 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

30. Rwmania— Penderfyniad y Comisiwn [83/218/EEC](#) (OJ Rhif L121, 7.5.83, t.23) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [86/289/EEC](#) (OJ Rhif L182, 5.7.86, t.25).

Gwybodaeth Cychwyn

I99 Atod. 2 para. 30 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

31. Y Weriniaeth Slofac— Penderfyniad y Comisiwn [93/547/EEC](#) (OJ Rhif L266, 27.10.93, t.33).

Gwybodaeth Cychwyn

I100 Atod. 2 para. 31 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

32. Slofenia— Penderfyniad y Comisiwn [93/27/EEC](#) (OJ Rhif L16, 25.1.93, t.26).

Gwybodaeth Cychwyn

I101 Atod. 2 para. 32 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

33. De Affrica— Penderfyniad y Comisiwn [82/913/EEC](#) (OJ Rhif L381, 31.12.82, t.28) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [90/433/EEC](#) (OJ Rhif L223, 18.8.90, t.21).

Gwybodaeth Cychwyn

I102 Atod. 2 para. 33 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

34. Gwlad Swazi— Penderfyniad y Comisiwn [82/814/EEC](#) (OJ Rhif L343, 4.12.82, t.24).

Gwybodaeth Cychwyn

I103 Atod. 2 para. 34 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

35. Y Swistir— Penderfyniad y Comisiwn [82/734/EEC](#) (OJ Rhif L311, 8.11.82, t.13) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [92/2/EEC](#) (OJ Rhif L1, 4.1.92, t.22).

Gwybodaeth Cychwyn

I104 Atod. 2 para. 35 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

36. Unol Daleithiau America— Penderfyniad y Comisiwn [87/257/EEC](#) (OJ Rhif L121, 9.5.87, t.46) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [2000/138/EC](#) (OJ Rhif L46, 18.2.00, t.36).

Gwybodaeth Cychwyn

I105 Atod. 2 para. 36 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

37. Uruguay— Penderfyniad y Comisiwn [81/92/EEC](#) (OJ Rhif L58, 5.3.81, t.43) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [86/485/EEC](#) (OJ Rhif L282, 3.10.86, t.31).

Gwybodaeth Cychwyn

I106 Atod. 2 para. 37 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

38. Gweriniaeth Ffederal Iwgoslafia— Penderfyniad y Comisiwn [98/8/EEC](#) (OJ Rhif L2, 6.1.98, t.12).

Gwybodaeth Cychwyn

I107 Atod. 2 para. 38 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

39. Zimbabwe— Penderfyniad y Comisiwn [85/473/EEC](#) (OJ Rhif L278, 18.10.85, t.35).

Gwybodaeth Cychwyn

I108 Atod. 2 para. 39 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Gwybodaeth Cychwyn

- I74** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I75** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I76** Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I77** Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I78** Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I79** Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I80** Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I81** Atod. 2 para. 12 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I82** Atod. 2 para. 13 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I83** Atod. 2 para. 14 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I84** Atod. 2 para. 15 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I85** Atod. 2 para. 16 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I86** Atod. 2 para. 17 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I87** Atod. 2 para. 18 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

- I88 Atod. 2 para. 19 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I89 Atod. 2 para. 20 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I90 Atod. 2 para. 21 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I91 Atod. 2 para. 22 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I92 Atod. 2 para. 23 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I93 Atod. 2 para. 24 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I94 Atod. 2 para. 25 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I95 Atod. 2 para. 26 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I96 Atod. 2 para. 27 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I97 Atod. 2 para. 28 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I98 Atod. 2 para. 29 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I99 Atod. 2 para. 30 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I100 Atod. 2 para. 31 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I101 Atod. 2 para. 32 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I102 Atod. 2 para. 33 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I103 Atod. 2 para. 34 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I104 Atod. 2 para. 35 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I105 Atod. 2 para. 36 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I106 Atod. 2 para. 37 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I107 Atod. 2 para. 38 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)
- I108 Atod. 2 para. 39 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

Y gofynion o ran ardystiadau iechyd

40. Yr Ariannin, Brasil, Chile, Colombia, Paraguay ac Uruguay— Penderfyniad y Comisiwn [93/402/EEC](#) (OJ Rhif L179, 22.7.93, t.11) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2003/758/EC](#) (OJ Rhif L272, 23.10.2003, t.16).

Gwybodaeth Cychwyn

I109 Atod. 2 para. 40 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

41. Awstralia— Penderfyniad y Comisiwn [80/801/EEC](#) (OJ Rhif L234, 5.9.80, t.41) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [81/662/EEC](#) (OJ Rhif L237, 22.8.81, t.33).

Gwybodaeth Cychwyn

I110 Atod. 2 para. 41 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

42. Belize— Penderfyniad y Comisiwn [84/292/EEC](#) (OJ Rhif L144, 30.5.84, t.10).

Gwybodaeth Cychwyn

I111 Atod. 2 para. 42 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

43. Botswana, Madagascar, Morocco, Namibia, De Affrica, Gwlad Swazi a Zimbabwe— Penderfyniad y Comisiwn [1999/283/EC](#) (OJ Rhif L110, 28.4.99, t.16) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2003/571/EC](#) (OJ Rhif L194, 1.8.2003, t.79).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I112 Atod. 2 para. 43 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

44. Albania, Bosnia-Herzegovina, Belarws, Bwlgaria, Croatia, Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithiwania, Cyn Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia, Gwlad Pwyl, Rwmania, Rwsia, Y Weriniaeth Slofac, Slofenia a Gweriniaeth Ffederal Iwgoslafia— Penderfyniad y Comisiwn [98/371/EC](#) (OJ Rhif L170, 16.6.98, t.16) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [2003/742/EC](#) (OJ Rhif L268, 18.10.2003, t.73).

Gwybodaeth Cychwyn

I113 Atod. 2 para. 44 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

45. Canada— Penderfyniad y Comisiwn [80/804/EEC](#) (OJ Rhif L236, 9.9.80, t.25) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn [98/91/EC](#) (OJ Rhif L18, 23.1.98, t.27).

Gwybodaeth Cychwyn

I114 Atod. 2 para. 45 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

46. Costa Rica— Penderfyniad y Comisiwn [81/887/EEC](#) (OJ Rhif L324, 12.11.81, t.25).

Gwybodaeth Cychwyn

I115 Atod. 2 para. 46 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

47. Cuba— Penderfyniad y Comisiwn [86/72/EEC](#) (OJ Rhif L76, 21.3.86, t.47).

Gwybodaeth Cychwyn

I116 Atod. 2 para. 47 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

48. Cyprus— Penderfyniad y Comisiwn [86/463/EEC](#) (OJ Rhif L271, 23.9.86, t.23).

Gwybodaeth Cychwyn

I117 Atod. 2 para. 48 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

49. Ynysoedd Falkland— Penderfyniad y Comisiwn [98/625/EC](#) (OJ Rhif L299, 10.11.98, t.30).

Gwybodaeth Cychwyn

I118 Atod. 2 para. 49 mewn grym ar 31.5.2004, gweler [rhl. 1](#)

50. Kalaallit Nunaat (Greenland)— Penderfyniad y Comisiwn [86/117/EEC](#) (OJ Rhif L99, 15.4.86, t.26).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2004. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

I119 Atod. 2 para. 50 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

51. Guatemala— Penderfyniad y Comisiwn [82/414/EEC](#) (OJ Rhif L182, 26.6.82, t.27).

Gwybodaeth Cychwyn

I120 Atod. 2 para. 51 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

52. Hondwräs— Penderfyniad y Comisiwn [89/221/EEC](#) (OJ Rhif L92, 5.4.89, t.16).

Gwybodaeth Cychwyn

I121 Atod. 2 para. 52 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

53. Gwlad yr Iâ— Penderfyniad y Comisiwn [83/84/EEC](#) (OJ Rhif L56, 3.3.83, t.26).

Gwybodaeth Cychwyn

I122 Atod. 2 para. 53 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

54. Malta— Penderfyniad y Comisiwn [84/294/EEC](#) (OJ Rhif L144, 30.5.84, t.17).

Gwybodaeth Cychwyn

I123 Atod. 2 para. 54 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

55. Mecsico— Penderfyniad y Comisiwn [83/380/EEC](#) (OJ Rhif L222, 13.8. 83, t.27).

Gwybodaeth Cychwyn

I124 Atod. 2 para. 55 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

56. Caledonia Newydd— Penderfyniad y Comisiwn [2001/745/EC](#) (OJ Rhif L278, 23.10.01, t.37).

Gwybodaeth Cychwyn

I125 Atod. 2 para. 56 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

57. Panama— Penderfyniad y Comisiwn [86/63/EEC](#) (OJ Rhif L72, 15.3.86, t.36).

Gwybodaeth Cychwyn

I126 Atod. 2 para. 57 mewn grym ar 31.5.2004, gweler **rhl. 1**

58. Y Swistir— Penderfyniad y Comisiwn [81/526/EEC](#) (OJ Rhif L196, 18.7.81, t.19) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn [94/667/EC](#) (OJ Rhif L260, 8.10.94, t.32).

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/05/2004.

